YSGOL GYNRADD GYMRAEG TYLE'R YNN,

LLANSAWEL CRESCENT, LLANSAWEL, CASTELL NEDD,
NEDD PORT TALBOT
SA 11 2UN

Ffôn/Telephone: 01639 812229
e-bost / e.mail : yggtylerynn@npted.org
wefan/website:www.tylerynn.ik.org

ADRODDIAD BLYNYDDOL Y CORFF LLYWODRAETHOL I RIENI 2016 - 2017

22.3.18

Annwyl Rieni/Gofalwyr,

Gweler islaw Adroddiad y Corff Llywodraethol i'r Rhieni am 2016-2017. Gobeithiaf y byddwch yn ei ddarllen, gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth bwysig.

Yn ystod y flwyddyn diwethaf cafodd yr ysgol arolwg ESTYN ar ddechrau mis Mai. Mae'n deg dweud ein bod oll wedi'n siomi â'r canlyniad, a nifer yn meddwl bod yr adroddiad ddim yn adlewyrchiad cywir o'n hysgol. Hoffwn ddiolch y rhieni ddaeth i'r cyfarfod gyda'r arolygwyr, hefyd rheiny oedd wedi cwblhau'r holiaduron i rieni/gofalwyr. Hoffwn hefyd eich sicrhau bod yr ysgol yn gweithio'n ddyfal i ymateb i'r argymhellion a wnaethpwyd gan yr arolygwyr.

Yn ystod gwyliau'r Haf 2017, roedd yr A.A.Ll. wedi adnewyddu toiledau'r merched sydd gyferbyn ag ystafelloedd dosbarth y Meithrin a'r Derbyn, hefyd toiledau'r merched i Flwyddyn 1 a 2. Yn ogystal cafwyd arwyneb newydd i'r iard uchaf, ac hefyd darn o'r brif mynedfa.

Ar ol 20 mlynedd o weithio yn yr ysgol, a'r 10 diwethaf fel Pennaeth, bydd Mrs Hart yn ymddeol ar ddiwedd Tymor y Gwanwyn 2018. Rwy'n siwr byddwch yn ymuno â fi wrth ddiolch iddi am ei blynyddoedd o wasanaeth a dymuno ymddeoliad hir ac hapus iddi.

Cafodd Mr Cerith Humphreys ei benodi yn ddiweddar fel Pennaeth newydd Ysgol Tyle'r Ynn. Bu'n Ddirprwy Bennaeth Gweithredol yn ysgol Tirdeunaw ac yn fwy diweddar yn Bennaeth Gweithredol yn Ysgol Felindre. Fe fydd yn dechrau yn ei swydd ar Ebrill 16eg.

Yn olaf, hoffwn ddiolch i bawb sydd â chysylltiad â'r ysgol am eu gwaith caled ac ymrwymiad dros y flwyddyn diwethaf, gan gynnwys aelodau'r Corff Llywodraethol, y staff dysgu a'r staff cynorthwyol ac hefyd aelodau'r Gymdeithas Rieni (CRACH) sydd unwaith eto wedi trefnu nifer o ddigwyddiadau llwyddiannus gan godi arian i'r ysgol. Diolch hefyd i'r teuluoedd, rhieni a gofalwyr ac hefyd rhieni cu, am eich cefnogaeth arbennig.

Yn gywir,

Helen Clarke

Cadeirydd y Llywodraethwyr

Corff Llywodraethol Y.G.G. Tyle'r Ynn

Enw	Math o lywodraethwr	Cyfnod yn dod i ben
Mr Owain Glenister	Rhiant Lywodraethwr	20.11.19
Mr Nathan Johns	Rhiant Lywodraethwr	20.11.19
Mr Lee Saunders	Rhiant Lywodraethwr	6.11.20
Mrs Sian Jeremiah	Rhiant Lywodraethwr	5.11.21
Mrs Helen Clarke (Cadeirydd)	Cynrychiolydd yr AALl	31.08.19
Mrs Margaret Davies	Cynrychiolydd yr AALl	31.12.21
Mrs Ann George	Cynrychiolydd yr AALl	31.12.17
Mr Justyn Knight Is-gadeirydd)	Llywodraethwr Cymunedol	31.10.20
Mrs Jen Davies	Llywodraethwr Cymunedol	22.10.18
Cyngh. Sylvia John	Llywodraethwr Cymunedol	31.10.20
Mrs Jeanette O'Shea	Llywodraethwr Cymunedol	9.11.19
Miss Nia Owen	Cynrychiolydd Staff Addysgu	9.11.19
Miss Betsan Jones	Cynrychiolydd Staff	9.11.19
Mrs Sian Hart	Pennaeth	

Cadeirydd y Corff Llywodraethol yw Mrs Helen Clarke a'r Clerc i'r Corff Llywodraethol yw Mrs Donna Brace. Gellir gysylltu a'r ddwy ohonynt drwy ddanfon llythyr iddynt drwy ofal swyddfa'r ysgol.

Cyfarfodydd rhwng rhieni a'r Corff Llywodraethol

Ers 2013 does dim dyletswydd ar y corff llywodraethol i gynnal cyfarfod blynyddol gyda'r rhieni. Serch hynny, gall rhieni disgyblion cofrestredig yr ysgol ofyn am i fyny at dri cyfarfod pob blwyddyn gyda'r corff llywodraethol drwy ddeiseb.

Ceir manylion am y canllawiau statudol ar gyfer y cyfarfodydd yma, deisebau a'r broses ar gyfer cynnal y cyfarfodydd yng nghyfarwyddiadau Llywodraeth Cymru yma:

Canllawiau statudol ar gyfer cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir yng Nghymru ynghylch y ddyletswydd i gynnal cyfarfodydd gyda rhieni

Ni ofynnodd unrhyw riant am gyfarfod gyda'r corff llywodraethol yn 2016 - 2017

Datganiad Cyllidol Ysgol Tyle'r Ynn 2016 - 2017

Neath Port Talbot CBC

Period: April 16 - Mar 17

YGG Tyle'r Ynn	
DELEGATED COSTS 2016/17	***YTD-Actual***
TEACHERS SALARIES	475,977.63
SALARIES	174,170.46
WAGES	0.00
OTHER EMPLOYEE EXPENSES	0.00
PREMISES	27,863.66
TRANSPORTATION	2,430.14
SUPPLIES AND SERVICES	33,463.19
THIRD PARTY PAYMENTS	0.00
SUPPORT SERVICES	85,570.44
GOVERNEMENT GRANTS & CONTRIBUTIONS	-130,264.00
SALES	-1,640.79
FEES AND CHARGES INCOME	-420.00
RENTS	-0.15
INTEREST RECEIVED	-56.52
TRANSFERS	10,064.89
	0.00
TOTAL	677,158.95

NON-DELEGATED COSTS 2016/17	***YTD-Actual***
TEACHERS SALARIES	15,175.00
OTHER EMPLOYEES	1,613.00
OTHER DIRECT COSTS	69,437.00
MISC INCOME	-71.00
CAPITAL CHARGES	62,249.00
RESERVES	9,968.00
TOTAL	158,371.00

Canlyniadau Asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol diwedd C.S. a C.A.2 2017

Gweler isod grynodeb o ganlyniadau asesiadau statudol y Fframwaith ar gyfer Dysgu Plant 3 – 7 oed, Haf 2017 ar gyfer yr ysgol ac yn genedlaethol (2016) fel canran o'r rhai sy'n gymwys i gael asesiad.

Roedd 31 o ddisgyblion yn y dosbarth (Blwyddyn 2) a'r lefel cyrrhaeddiad disgwyliedig yw Deilliant 5.

(Tabl 1 o 2 - CANRANNAU)
Castell-nedd Port Talbot
YGG Tyle'r Ynn

		N	D	W	1	2	3	4	5	6	A
Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol	Ysgol	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	6.5	6.5	87.1	0.0
	Cymru	-	*0.4*	*0.3*	*0.2*	*0.4*	*1.0*	*3.3*	*35.5*	*58.8*	*0.1*
Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu (yn y Gymraeg)	Ysgol	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	16.1	48.4	35.5	0.0
	Cymru	*0.0*	*0.1*	-	*0.1*	*0.2*	*1.2*	*7.6*	*54.4*	*36.2*	*0.1*
Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu (yn Saesneg)	Ysgol	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0
	Cymru	*0.1*	*0.5*	*0.4*	*0.2*	*0.6*	*1.7*	*8.7*	*51.8*	*36.1*	*0.1*
Datblygiad mathemategol	Ysgol	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	16.1	45.2	38.7	0.0
	Cymru	-	*0.4*	*0.3*	*0.2*	*0.4*	*1.3*	*7.5*	*53.5*	*36.3*	*0.1*

Meysydd Dysgu Dewisol:

Datblygiad creadigol	Ysgol	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0
Datblygiad corfforol	Ysgol	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0
Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd	Ysgol	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0
Datblygu'r Gymraeg	Ysgol	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0

DCS **

Ysgol	77.4
Cymru	*87.0*

Nodiadau
N: Ni ddyfarnwyd lefel am resymau heblaw datgymhwyso
D: Datgymhwyswyd o dan Adran 364 neu 365 o Ddeddf Addysg 1996, a weithredit bellach drwy adrannau 113-116 o Ddeddf Addysg 2002.
W: Gweithio tuag at Ddeilliant 1 y Cyfnod Sylfaen.
A: Perfformiad yn uwch na Deilliant 6 y Cyfnod Sylfaen.

- : Nid yw'n union sero, ond yn llai na 0.05
* : Mae'r cohort yn llai na phump neu ni ellir ei gynnwys am resymau cyfrinachedd
** : Wedi cyflawni'r deilliannau a ddisgwyliwyd yn y canlynol "Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu (yn Gymraeg)" neu "Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu (yn Saesneg)", "Datblygiad mathemategol", a "Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol".

Mae'r data cymharol cenedlaethol yn cyfeirio at 2016

Gweler isod grynodeb o ganlyniadau asesiadau'r cwricwlwm cenedlaethol i ddisgyblion yn yr ysgol (2017) ac yn genedlaethol (2016) ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2, fel canran o'r rhai sy'n gymwys i gael asesiad.

Roedd 28 o ddisgyblion yn y dosbarth (Blwyddyn 6) a'r lefel cyrrhaeddiad disgwyliedig yw lefel 4.

(Tabl 1 o 2 - CANRANNAU)
Castell-nedd Port Talbot
YGG Tyle'r Ynn

		N	D	NCO1	NCO2	NCO3	1	2	3	4	5	6+	4+
Saesneg	Ysgol	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	14.3	53.6	32.1	0.0	85.7
	Cymru	*0.1*	*0.4*	*0.1*	*0.1*	*0.1*	*0.5*	*1.6*	*6.8*	*48.4*	*40.6*	*1.4*	*90.3*
Llafaredd	Ysgol	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	10.7	50.0	39.3	0.0	89.3
	Cymru	*0.1*	*0.4*	*0.1*	*0.1*	*0.1*	*0.5*	*1.4*	*6.9*	*47.1*	*41.7*	*1.7*	*90.5*
Darllen	Ysgol	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	14.3	53.6	32.1	0.0	85.7
	Cymru	*0.1*	*0.4*	*0.1*	*0.1*	*0.1*	*0.5*	*1.5*	*7.5*	*46.4*	*41.6*	*1.7*	*89.7*
Ysgrifennu	Ysgol	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	3.6	17.9	60.7	17.9	0.0	78.6
	Cymru	*0.1*	*0.4*	*0.1*	*0.1*	*0.1*	*0.5*	*2.0*	*11.3*	*51.5*	*32.5*	*1.3*	*85.4*
Cymraeg Iaith Gyntaf	Ysgol	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	14.3	60.7	25.0	0.0	85.7
	Cymru	*-*	*0.2*	*-*	*0.0*	*0.0*	*0.3*	*1.2*	*7.4*	*52.8*	*36.6*	*1.4*	*90.8*
Llafaredd	Ysgol	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	14.3	53.6	32.1	0.0	85.7
	Cymru	*-*	*0.2*	*-*	*0.0*	*0.0*	*0.3*	*1.1*	*6.4*	*51.4*	*39.1*	*1.5*	*92.0*
Darllen	Ysgol	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	14.3	60.7	25.0	0.0	85.7
	Cymru	*-*	*0.2*	*-*	*0.0*	*0.0*	*0.3*	*1.3*	*8.3*	*50.7*	*37.4*	*1.7*	*89.8*
Ysgrifennu	Ysgol	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	21.4	60.7	17.9	0.0	78.6
	Cymru	*-*	*0.2*	*-*	*0.0*	*-*	*0.3*	*1.6*	*12.3*	*55.5*	*28.8*	*1.2*	*85.5*
Mathemateg	Ysgol	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	14.3	57.1	28.6	0.0	85.7
	Cymru	*0.1*	*0.4*	*0.1*	*0.1*	*0.1*	*0.4*	*1.4*	*6.5*	*47.8*	*41.5*	*1.6*	*91.0*
Gwyddoniaeth	Ysgol	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	7.1	71.4	21.4	0.0	92.9
	Cymru	*0.1*	*0.4*	*0.1*	*0.1*	*0.1*	*0.4*	*1.3*	*5.8*	*49.2*	*42.3*	*0.2*	*91.7*

Dangosydd Pwnc Craidd **

Ysgol	85.7
Cymru	*88.6*

Nodiadau
N: Ni ddyfarnwyd lefel am resymau heblaw datgymhwyso
D: Datgymhwyswyd o dan Adran 364 neu 365 o Ddeddf Addysg 1996, a weithredit bellach drwy adrannau 113-116 o Ddeddf Addysg 2002.
NCO1 : Deilliant 1 Cwricwlwm Cenedlaethol
NCO2 : Deilliant 2 Cwricwlwm Cenedlaethol
NCO3 : Deilliant 3 Cwricwlwm Cenedlaethol
Noder bod NCO1, NCO2 a NCO3 wedi disodli lefel W mewn blynyddoedd blaenorol

- : Nid yw'n union sero, ond yn llai na 0.05
* : Mae'r cohort yn llai na phump neu ni ellir ei gynnwys am resymau cyfrinachedd
** : Wedi cyrraedd y lefel ddisgwyliedig yn Saesneg neu Gymraeg Iaith Gyntaf, Mathemateg a Gwyddoniaeth gyda'i gilydd

Mae'r data cymharol cenedlaethol yn cyfeirio at 2016

Canrannau presenoldeb 2016 – 2017

Dyma wybodaeth am bresenoldeb disgyblion yr ysgol yn 2016 – 2017.

Y targed a bennwyd gan yr Awdurdod Addysg Leol ar gyfer presenoldeb yr ysgol yn 2016 - 2017 oedd 95%

Presenoldeb	94.7%
Absenoldeb â chaniatad	3.7%
Absenoldeb heb ganiatad	1.6%

Darpariaeth Addysg Gorfforol

Fel arfer mae dau sesiwn o wersi Addysg Gorfforol wedi'u hamserlenni ar gyfer pob dosbarth (mae gwersi nofio yn cyfrif fel un o'r rhain). Yn ystod 2016 - 2017 roedd dosbarthiadau Blwyddyn 3,4,5 a 6 yn cael pythefnos yr un o wersi nofio dyddiol.

Penodwyd dau o glybiau ar ôl ysgol ar gyfer gweithgareddau Addysg Gorfforol. Ar ddydd Llun roedd carfannau rygbi a phêl rhwyd yr ysgol yn hyfforddi, ac ar ddydd Mawrth cynhelir clwb Campau'r Ddraig.

Yn ystod y flwyddyn cafwyd nifer o gemau rygbi a phêl rhwyd yn erbyn ysgolion eraill, ag wythnos ffitrwydd ym mis Mehefin gyda llawer o weithgareddau oedd yn hybu ffitrwydd disgyblion.

Camau a gymerwyd er mwyn datblygu neu cryfhau cysylltiadau â'r gymuned (gan gynnwys yr heddlu).

Cymerodd yr ysgol ran yn y gweithgareddau canlynol yn y gymuned yn ystod y flwyddyn

29.9.16	Yr Adran Iau i ymuno yng Ngwasanaeth Cynhaeaf ysgolion Llansawel yng nghapel Rehoboth
30.9.16	Bl 6 yn cynnal bore goffi yn yr ysgol i godi arian i Macmillan
7.10.16	Swyddog o'r Frigad Dân yn rhoi gwers ar Ddiogelwch Tân i Flwyddyn 2 a 5
7.10.16	Gweinidog o Gapel Jerusalem wedi gwneud gwasanaeth a rhoi afal i bob plentyn yn yr ysgol oddi wrth gapeli ac eglwysi yr ardal.
6.12.16	Cyngerdd Nadolig Blwyddyn 1 a 2 yn JK's
7.12.16	Cyngerdd Nadolig y Dosbarth Derbyn yn ysgol Tyle'r Ynn
8.12.16	Cyngerdd Nadolig yr Adran Iau yng Nghapel Rehoboth
12.12.16	Bore coffi Nadolig yn ysgol Tyle'r Ynn

13.12.16	Y Dosbarth Derbyn yn canu i'r grŵp Macmillan yn y neuadd gymuned
14.12.16	Y Côr yn canu yn ysbyty Nedd Port Talbot
6.1.17	Dosbarth Derbyn – canu yng nghartref preswyl i'r henoed (Brynsiriol)
1.3.17	Bl 4,5 a 6 wedi ymuno yng ngorymdaith Dydd Gwyl Dewi yng Nghastell Nedd
2.3.17	Aeth y côr i ganu yn Ysbyty Baglan
7.3.17	Bore goffi Pasg yn yr ysgol
24.5.17	Ffair Haf

Yn ystod y flwyddyn daeth P.C. Bowen, swyddog addysg yr heddlu, i'r ysgol sawl gwaith er mwyn gweinyddu holl raglen addysgiadol yr heddlu i bob dosbarth.

Dyddiadau'r tymhorau ac amserau sesiynau 2017- 2018

Meithrin	9.00 am – 11.45 a.m.	1.15 pm – 3.15 pm (Tymhorau'r Gwanwyn a Haf yn unig)
Derbyn, Blwyddyn 1 a 2	9.00 am – 12.00 pm	1.15 pm – 3.30 pm
Blwyddyn 3,4,5 a 6	9.00 am – 12.15 pm	1.15 pm – 3.30 pm

Ceir egwyl fer yn ystod sesiwn y bore a'r prynhawn.
Mae'r amser a dreulir ar ddysgu yn ystod wythnos gyffredin gan gynnwys Addysg Grefyddol ond sy' ddim yn cynnwys gwasanaethau boreol, cofrestru ac egwyl chwarae a chinio yn 22 awr 5 munud i'r Adran Babanod a 23 awr 20 munud i'r Adran Iau.
Dylid sicrhau bod disgyblion yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon ar gyfer dechrau'r diwrnod ysgol. Dylai plant gyrraedd iard chwarae'r ysgol erbyn 8.50 a.m. pan fydd athrawon ar ddyletswydd. Gofynnir i rieni adael yn syth pan fydd y gloch yn canu. Pan fydd y tywydd yn wael, caiff y plant fynd i mewn i adeilad yr ysgol yn syth. Dylid casglu plant yn brydlon am 3.30 p.m.

Dyma ddyddiadau'r tymhorau yn 2017 - 2018

Tymor	Dechrau'r tymor	Dechrau Hanner Tymor	Diwedd Hanner Tymor	Diwedd Tymor	Diwrnodau
Hydref 2017	Dydd Llun 4 ydd Medi	Dydd Llun 30 ain Hydref	Dydd Gwener 3ydd Tachwedd	Dydd Gwener 22 ain Rhagfyr	75
Gwanwyn 2018	Dydd Llun 8 fed Ionawr	Dydd Llun 19eg Chefror	Dydd Gwener 23ain Chwefror	Dydd Iau 29 ain Mawrth	54
Haf 2018	Dydd Llun 16 eg Ebrill	Dydd Llun 28ain Mai	Dydd Gwener 1af Mehefin	Dydd Mawrth 24ain Gorffennaf	66

Bydd pob ysgol ar gau ar ddydd Llun Mai'r 7fed, 2018.

Trefnir 5 diwrnod HMS i'r staff pan fydd yr ysgol ar gau i ddisgyblion ac fe fyddwn yn eich hysbysu o ddyddiadau'r rhain o leiaf fis o flaen llaw.

Llawlyfr ysgol

Mae llawlyfr yr ysgol wedi'i ddiweddaru yn sgil newidiadau staffio a newidiadau eraill, ac mae copi o lawlyfr 2017– 2018 ar gael ar wefan yr ysgol.

Anghenion Dysgu Ychwanegol

Mae copiau o bolisi'r ysgol ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol ar gael yn swyddfa'r ysgol. Mae'r disgyblion hynny sydd ar gofrestr Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yr ysgol yn derbyn cynhaliaeth ychwanegol ac mae ganddynt dargedau unigol. Os fydd angen cymorth ar yr ysgol byddwn yn cyfeirio'r plant hynny at asiantaethau allanol, gyda chaniatad y rhieni.

Cwricwlwm a threfniadau addysgu

Mae plant yr Adran Iau yn dilyn canllawiau'r Cwricwlwm Cenedlaethol. Mae'r Cwricwlwm yn cynnwys naw o bynciau sylfaenol, y pedwar cyntaf yn bynciau craidd – Cymraeg, Saesneg, Gwyddoniaeth,Mathemateg, Hanes,Daearyddiaeth,Celf, Cerdd, Addysg Gorfforol, Technoleg a Thechnoleg Gwybodaeth.
Mae plant y Cyfnod Sylfaen yn dilyn fframwaith y Cyfnod Sylfaen gyda phwyslais ar y meysydd canlynol – Sgiliau Iaith,Llythrennedd a Chyfathrebu, Datblygiad Mathemategol, Datblygiad Corfforol, Datblygiad Creadigol, Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd.
Mae Addysg Grefyddol yn elfen orfodol ac yn cael ei ddysgu yn ôl cynllun gwaith yr ysgol, yn unol â chanllawiau'r Awdurdod Addysg. Caiff disgyblion y cyfle i gydaddoli'n ddyddiol, naill ai fel ysgol gyfan neu fesul dosbarth. Y mae hawl gan rieni hepgor i'w plant y ddarpariaeth hon.

Y Gymraeg

Ysgol benodedig Gymraeg yw Ysgol Gynradd Gymraeg Tyle'r Ynn. Hyfforddir y plant o'r cychwyn drwy gyfrwng y Gymraeg a Chymraeg yw cyfrwng pob gwers yn y Cyfnod Sylfaen.. Dysgir trwy gyfrwng y Saesneg a'r Gymraeg yn yr Adran Iau ond rhoddir mwy o bwyslais ar y Gymraeg fel cyfrwng dysgu ac anogir y plant i ddefnyddio'r Gymraeg ar bob achlysur o gwmpas yr ysgol.

Ar ddiwedd Blwyddyn 6 mae ein disgyblion yn trosglwyddo i Ysgol Gyfun Ystalyfera Bro Dur.

Cyflenwad toiledau

Mae gan yr ysgol gyflenwad toiledau digonol ar gyfer holl ddisgyblion yr ysgol. Mae hyn yn cynnwys tŷ bach i ddisgyblion y Derbyn sydd wedi'i leoli o fewn yr ystafell Derbyn. Mae yna hefyd doiledau ar wahan i fechgyn a merched y dosbarth Meithrin, Blynyddoedd 1 a 2 a'r Adran Iau. Mae toiledau ar wahan i ddynion a menywod a ddefnyddir gan aelodau staff ac ymwelwyr â'r ysgol, ac mae yna dŷ bach pwrpasol ar gyfer unrhyw ddisgybl, aelod staff neu ymwelydd ag anabledd corfforol.
Caiff y toiledau eu glanhau'n ddyddiol ac ychwanegir at gyflenwad papur a sebon hylif yn ôl y galw yn ddyddiol.